

PENNOD 16: CANIAD Y CORN

Eseia 28. 13

Yn y dydd hwnnw fe genir ag utgorn mawr, ac fe ddaw'r rhai fu ar goll.....
a'r rhai oedd ar chwâl..... ac addoli'r Arglwydd.

Cawsom ein dysgu yn fy ngholeg diwinyddol, fel mewn colegau diwinyddol eraill, yn y 1950au fod Mathew a Luc yn adrodd hanesion y Nadolig a bod gan loan ei ffanffer am yr Ymgnawdoliad, tra nad oedd gan Farc, â ysgrifennodd yr efengyl gyntaf ddim byd i'w ddweud am hynny. Agorir Efengyl Marc gydag loan Fedyddiwr. Yn nodweddiadol o esboniadau y cyfnod hwnnw oedd geiriau yr *Interpreter's Bible* ar Farc, a gyhoeddwyd yn gyntaf yn 1951, sy'n nodi'n glir "Yn wahanol i Efengyl Luc, nid oes gan Marc ragair yn cyflwyno pwrpas ei awdur." Yn ystod y blynyddoedd diweddar mae ysgolheigion wedi diwygio'r syniad yma, gan bwysleisio bod gan Marc hefyd brolog i'w lyfr, er bod yna beth dadlâu ynglŷn â maint y prolog hwnnw: yr un deg un adnod gyntaf neu'r pymtheg gyntaf. Os ffanffer sydd gan loan, galwad corn sydd gan Marc, sy'n hawlio sylw ei ddarllenwyr i'r proclamasiwn sy'n dilyn, sef "Efengyl Iesu Grist, Mab Duw." Dyma thema llyfr MarcMae'n dechrau gyda gweinidogaeth loan Fedyddiwr, yr un sy'n paratoi'r ffordd ond gwelir ar unwaith ei fod ef a'i weinidogaeth yn israddol i'r thema, sef bod Newyddion Da o lawenydd mawr ar fin cyrraedd yn galw ar y bobl i droi at Dduw.

Credir i Farc ysgrifennu ei lyfr rywbryd rhwng y blynyddoedd 64 a 75. Drwg iawn oedd sefyllfa'r byd. Yn y flwyddyn 70 cododd milwyr 'tanddaearol' yr Iddewon yn erbyn lluoedd Rhufain. Atebodd yr ymherodraeth gyda grym enfawr ac yr oedd Jerwsalem dan warchae. Bu farw Nero yn y flwyddyn flaenorol a chafodd ei ddilyn gan bedwar dyn a phob un yn cael ei fradlofruddio. Vespanianus (Titus Flāvius Caesar Vespasiānus Augustus) oedd prif-swyddog y fyddin imperialaidd. Enillodd y frwydr gan ddanistrio Jerwsalem yn gyfangwbl ac ar ôl hynny coronwyd ef yn ymherodr. Cafwyd tensiynau mawr yng Nghalilea rhwng Iddewon a chenedl-ddynion. Aeth pris olew'r olewydden, yn sylfaenol i fywyd pob dydd. allan o bob rheolaeth. Arweiniodd diweithdra mawr at afreolaeth gyffredinol ar draws y wlad. Ysgrifennodd yr efenglydd hwn ar gyfer cynulleidfa wedi'r Pasg, a'i ddarllenwyr yn meddwl bod yr hanes yn dod i ben gyda marwolaeth Iesu. Rhoddwyd llun o'r ymherodr ar lawer ddarnau o arian bath Rhufain gyda'r geiriau, 'Divi Filius/MabDwyfol' o amser Octavianus ymlaen. Rhywun gaiff ei enwi ym mhroclamsiwn Marc, sef 'Iesu Grist, Mab Duw.' Hwn yn unig yw Gobaith y Byd.

Cyfeiria agoriad Marc, 'Dechrau efengyl', nid yn unig at ei eiriau agoriadol a bedyddio Iesu gan loan ond at holl weinidogaeth Iesu, ei ddiodefaint, ei farw

a'i atgyfodiad, gan alw ar ei ddarllenwyr i gyfranogi o weinidogaeth, dioddefaint a marwolaeth Iesu er mwyn cyfranogi o'i atgyfodiad eu hunain. Man cychwyn efengyl Mathew yw geni Iesu; dechreua Luc gyda geni Ioan Fedyddiwr ond agorir efengyl Marc gyda'r proffwydi yn datgan dyfodiad y Meseia/Crist ym mherson Iesu. Ymwân ei efengyl â gwaredigaeth yr holl fyd. Yr Elias a addawyd yw Ioan Fedyddiwr yn paratoi ffordd yr Arglwydd.

Ni chawn yr un gair gan Iesu ym mhedair adnod a'r ddeg gyntaf Efengyl Marc. Yn gyntaf daw'r geiriau, sydd yn ôl Marc yn eiddo i'r proffwyd Eiseia ond, mewn gwirionedd d mae'n difynnu tri llyfr o'r Hen Destament. Daw'r 'angel neu negesydd' (Groeg, *angelos*) o Lyfr yr Ecsodus 23.20: "Edrych, yr wyf yn anfon angel o'th flaen, i'th warchod ar hyd y ffordd a'th arwain i'r man yr wyf wedi ei baratoi. Bydd ufudd iddo a gwrando arno; paid â'i wrthwynebu; oherwydd fy awdurdod sydd ganddo Eiddo Malachi 3.1 yw'r addewid ar ddechrau pennod tri: "Wele fi'n anfon fy nghennad i baratoi fy ffordd o'm blaen; ac yn sydyn y daw'r Arglwydd..." Ond Eiseia 40.3 sy'n disgrifio gwaith y cennad hwn: "Llais un yn galw, 'Paratowch yn yr anialwch, ffordd yr Arglwydd..'" Diddorol yw sylw nad yw Marc yn ofni ad-drefnu geiriau Eiseia, gan symud atalinod i ddweud, "Llais un yn galw yn yr anialwch, 'Paratowch ffordd yr Arglwydd..." Neges sydd gan y ddau broffwyd, Malachi ac Eiseia, i'r Hebreaid sy'n alltud ym Mabyllon wrth i'w caethiwed ddod i ben. Dywedir wrthynt i baratoi ffordd yr Arglwydd a hwythau'n gyfarwydd â chyfrifoldeb swyddogion Babilon i sicrhau bod pob ffordd yn barod pe byddai'r brenin yn dewis mynd arni. Felly, gelwir ar bobl Dduw i gyflawni gorchwyl tebyg i baratoi ffordd yr Arglwydd, sydd ar fin dod. Arfer cyffredin mewn dramâu a llenyddiaeth Roegaidd oedd defnyddio rhagair i alluogi'r gynulleidfa i gael ar ddeall materion sy'n anadnabyddus i'r actorion. Mae Crist Marc yn gyfartal â Logos/Gair Ioan. Ei fwriad yw cyflwyno portread o 'Iesu Grist, Mab Duw.' Pwrpas ei adnod gyntaf yw rhoi teitl i'w lyfr ynghyd â thema a phwrpas ei ysgrifennu. Fel yn y rhageirau clasurol, mae'r prif actor yn ddistaw. Ceir sôn amdano gan Lyfr yr Ecsodus a'r proffwydi Malachi ac Eiseia. Tystia Ioan Fedyddiwr amdano. Y mae Duw yn llefaru ac yn gweithredu adeg bedydd Iesu. Yr Ysbryd Glân sy'n ei yrru i'r anialwch, lle temtir ef gan Satan a daw'r angylion i weini arno. Rhaid aros i'r cyfan hyn ddigwydd cyn i Iesu, prif actor ein gwaredigaeth lefaru ei linellau agoriadol: "Y mae'r amser wedi ei gyflawni, ac y mae teyrnas Dduw wedi dod yn agos. Edifarhewch¹³⁰ a chredwch yr Efengyl."¹³¹

*Arglwydd Dduw, defnyddiaist dy was, Marc yr efenglydd,
i oleu llawer trwy ei dystiolaeth; gwna ninnau hefyd yn weision ffyddlon i ti
a chyfryngau dy Oleuni trwy ymagwedd,
gair a gweithred ac yng nghyd-fyw dy bobl;
er mwyn Iesu Grist, Goleuni'r Byd.*

Cwestiynau i'w hystyried neu i'w trafod

Beth yw'ch ymateb i'r ffaith nad yw Marc yn cyfeirio o gwbl at yr Ymgnewdoliad?

Beth sy'n bwysig i chwi yn rhagair Marc?

Beth yw ystyr "edifarhau"?

Beth yw ystyr "credu'r Newyddion Da?" a sut ydym yn credu?